# Cwis:
# Coed a hadau

Gellir defnyddio'r cwestiynau yma i atgyfnerthu'r hyn a ddysgir yn ystod gweithgareddau sy'n ymwneud â choed, hadau, a choedwigoedd. Gellir eu defnyddio hefyd fel cwestiynau i benderfynu enillydd wedi gweithgareddau egino hadau, neu fel gweithgaredd 'gwir neu gelwydd'.

| Cwestiwn | Ateb | A wyddoch chi? |
|---|---|---|
| **Hedyn pa goeden sy'n cael ei alw'n 'goncyr'?** | Castanwydden y Meirch | Trwy drwytho dail Castanwydden y Meirch mewn dŵr, mae modd cynhyrchu deunydd sy'n debyg i sebon. |
| **Hadau pa goed sy'n disgyn fel hofrenyddion?** | Sycamorwydden | Gall bwyta hadau sycamorwydden niweidio eich cyhyrau gan eu bod yn cynnwys y gwenwyn hypoglycin A. |
| **Dail pa goeden sy'n cael eu defnyddio fel addurniadau Nadolig?** | Celyn | Caiff y rhan fwyaf o goed celyn eu 'plannu' gan adar wedi iddynt fwyta'r aeron. |
| **Pa goeden sy'n cynhyrchu mes?** | Derwen | Gellir defnyddio mes i gynhyrchu blawd ac i wneud diod sy'n debyg i goffi. |
| **Beth yw enw'r unig goeden lydanddail gynhenid i Brydain sy'n cynhyrchu moch coed?** | Gwernen | Gellir cynhyrchu lliw gwyrdd o'r wernen, yr un lliw a ddefnyddiwyd i liwio dillad herwyr megis Robin Hood. |
| **Cneuen pa goeden sy'n cael ei ddefnyddio i wneud Nutella?** | Collen | Mae pren cyll mor ystwyth yn y gwanwyn mae modd creu cwlwm ohono heb dorri'r pren. |
| **Cneuen pa goeden sy'n cael ei rhostio ddydd Nadolig?** | Castanwydden Bêr | Y Rhufeiniaid wnaeth gyflwyno'r Gastanwydden Bêr i Brydain fel ffynhonnell fwyd. |
| **Pa goeden sy'n cynhyrchu hadau a elwir yn 'mast'?** | Ffawydden | Defnyddiwyd dail ffawydd ar gyfer meddyginiaethau - i leddfu chwydd er enghraifft. |

## Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os gwelwch yn dda, neu ewch i https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000